Pecyn Adnoddau Bagloriaeth Cymru
Her Dinasyddiaeth Fyd-Eang

Pwnc: Byw yn gynaliadwy – Ailgylchu

1. Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff trefol awdurdodau lleol a blwyddyn

https://statswales.llyw.cymru/

2012 – 2013

	Canran Gwastraff y Cartref sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu	Canran Gwastraff y Cartref sy'n cael ei Gompostio	Canran Gwastraff Nad yw'n Wastraff y Cartref sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu / Compostio	Canran Gwastraff sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu / Compostio (Targed Statudol)
Cymru	32.2	17.1	3.0	52.3
Gwledig	30.9	19.3	3.7	53.9
Trefol	30.7	18.0	2.7	51.4
Cymoedd	35.5	13.2	2.4	51.1
Ynys Môn	26.4	28.8	0	55.2
Gwynedd	23.4	18.2	9.7	51.2
Conwy	30.9	18.0	7.5	56.4
Sir Ddinbych	35.1	22.5	0.4	58.0
Sir y Fflint	31.5	22.5	0.9	54.9
Wrecsam	32.0	20.2	0.6	52.8
Powys	28.2	16.8	6.0	50.9
Ceredigion	38.7	13.7	1.2	53.6
Sir Benfro	32.5	15.6	5.0	53.1
Sir Gaerfyrddin	36.1	17.3	0.3	53.8
Abertawe	28.4	15.5	4.0	47.9
Castell-nedd Port-Talbot	32.4	13.3	2.7	48.3
Pen-y-bont ar Ogwr	37.9	15.6	3.6	57.1

Bro Morgannwg	33.4	21.0	0.1	54.5
Caerdydd	32.0	15.9	4.2	52.2
Rhondda Cynon Taf	37.2	7.9	1.1	46.2
Merthyr Tudful	30.8	13.5	4.9	49.1
Caerffili	37.3	17.2	2.6	57.1
Blaenau Gwent	38.2	12.1	0.9	51.2
Torfaen	30.0	14.9	2.2	47.1
Sir Fynwy	29.2	25.6	0.7	55.5
Casnewydd	28.2	19.1	1.5	49.2

2014 – 2015

	Canran Gwastraff y Cartref sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu	Canran Gwastraff y Cartref sy'n cael ei Gompostio	Canran Gwastraff Nad yw'n Wastraff y Cartref sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu / Compostio	Canran Gwastraff sy'n cael ei Ailddefnyddio / Ailgylchu / Compostio (Targed Statudol)
Cymru	30.3	18.0	11.9	60.2
Gwledig	31.2	20.8	10.0	62.0
Trefol	28.3	17.6	13.1	59.0
Cymoedd	31.4	14.9	13.0	59.3
Ynys Môn	25.8	27.5	6.2	59.5
Gwynedd	20.8	19.7	18.2	58.7
Conwy	25.5	18.8	15.3	59.7
Sir Ddinbych	32.1	23.8	6.6	62.4
Sir y Fflint	22.2	22.9	13.4	58.5
Wrecsam	31.7	19.1	11.6	62.3
Powys	33.9	21.2	4.0	59.1
Ceredigion	33.1	16.6	18.4	68.1
Sir Benfro	32.1	20.4	12.4	64.9
Sir Gaerfyrddin	40.3	17.7	5.5	63.5
Abertawe	29.0	16.2	14.3	59.5
Castell-nedd Port-Talbot	30.8	19.4	8.1	58.3
Pen-y-bont ar Ogwr	28.9	12.8	17.4	59.0

Bro Morgannwg	36.9	22.5	5.2	64.5
Caerdydd	29.1	16.4	12.7	58.2
Rhondda Cynon Taf	35.9	13.6	11.0	60.5
Merthyr Tudful	31.6	12.6	17.4	61.6
Caerffili	27.0	16.5	18.4	61.9
Blaenau Gwent	31.1	11.2	6.5	48.7
Torfaen	34.7	15.1	7.7	57.4
Sir Fynwy	30.5	22.3	9.0	61.9
Casnewydd	28.7	14.8	13.6	57.1

2. Cyfraddau ailgylchu yng Nghymru yn taro 60% tra bod cynghorau yn ceisio ysgoi dirwyon

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-37167691



3. Ymweliadau cartref i annog trigolion i ailgylchu bwyd yng Nghaerffili

http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-36992632

Ymweliadau cartref i annog trigolion i ailgylchu bwyd yng Nghaerffili

6 Awst 2016

Bydd pob cartref yn sir Caerffili yn cael ymweliad fel rhan o ymgyrch newydd i annog mwy o bobl i ailgylchu eu gwastraff bwyd.

Gwneir hyn yn sgil rhaglen gan Gyngor Caerffili i fonitro 7,000 o gartrefi wedi'u dewis ar hap, a ganfu mai dim ond 38% oedd yn ailgylchu.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd swyddogion y Cyngor yn mynd i 80,000 o gartrefi mewn ymgais i gynyddu'r ffigur hwnnw.

Dywedodd yr awdurdod fod 7,000 tunnell o wastraff bwyd nad yw'n cael ei ailgylchu.

> Meddai'r Cynghorydd Nigel George, aelod y cabinet ar gyfer gwasanaethau cymunedol a hamdden: "Pe bai pob aelwyd yn ailgylchu gwastraff bwyd, gallai'r cyngor arbed bron £200,000 y flwyddyn a allai fynd tuag at ddiogelu gwasanaethau rheng flaen eraill."

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ailgylchu o leiaf 64% o'r holl wastraff a gesglir erbyn 2019-20 a 70% erbyn 2024-25.

Os nad ydynt yn gwneud hynny, gallai cynghorau gael dirwyon sylweddol o hyd at £1 miliwn.

4. Pôl piniwn Sir Benfro ar gasgliadau sbwriel misol

O www.westerntelegraph.co.uk (08/12/2015)

Eich pleidlais:

A ddylai Sir Benfro symud tuag at gasgliadau misol o ran bagiau duon?

- Dylai — 5%
- Na ddylai — 95%

5. Cyngor Conwy yn trafod casgliad misol

http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/35518119

Sbwriel: Cyngor Conwy yn trafod casgliad misol

8 Chwefror 2016

Bydd cyngor yng ngogledd Cymru yn trafod argymhelliad i gasglu sbwriel unwaith y mis er mwyn ceisio hybu pobl y sir i ailgylchu fwy.

Mae Cyngor Conwy yn ystyried newid y drefn sydd yn bodoli ar hyn o bryd, o gasglu bob pythefnos.

Petai'r cynllun yn mynd yn ei flaen, Conwy fyddai'r sir gyntaf yng Nghymru i gasglu biniau yn fisol.

Yn ôl y cyngor, mae tua 59% o wastraff yn cael ei ailgylchu, ond mae'r sir eisiau cynyddu'r ffigwr.

> Dywedodd Rheolwr Gwastraff Conwy, John Eastwood: "'Da ni `di edrych ar be' sy' yn y gwastraff, ac mae dros 50% o'r gwastraff sy'n cael ei roi i mewn i'r biniau du yn stwff sy'n gallu, a ddyla', gael ei roi yn y blychau ailgylchu a blychau bwyd 'da ni'n cynnig fel gwasanaeth."

'Arbedion mawr'

Ychwanegodd mai casglu sbwriel yn llai aml fyddai'r opsiwn fyddai'n "cynyddu ailgylchu fwya'" a "galluogi arbedion mawr hefyd" yn lle gwario ar dirlenwi.

Dywedodd Mr Eastwood bod arolwg gan y sir o 11,000 o bobl wedi dod i'r canlyniad bod dros 55% o'r nifer yn gallu rheoli eu gwastraff gyda chasgliadau llai aml.

Ychwanegodd bod y cyngor yn ystyried mesurau ychwanegol fel casglu clytiau ar wahân, rhoi biniau ychwanegol i deuluoedd mwy a chasglu ailgylchu yn fwy aml ar adegau fel y Nadolig.

Os bydd y Pwyllgor Craffu o blaid y newid, yna fe fydd cabinet Cyngor Conwy yn trafod y syniad yn ddiweddarach yn y mis.

6. Tuag at Ddyfodol Diwastraff

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy

Prif strategaeth gwastraff Cymru.

Tuag at Ddyfodol Diwastraff ' (TZW) yw'r strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru . Fe'i cyhoeddwyd yn 2010. TZW yn nodi ar strategaeth lefel uchel ar gyfer sut y byddwn yn rheoli gwastraff yng Nghymru i gynhyrchu buddion nid yn unig i'r amgylchedd, ond hefyd i'n heconomi a lles cymdeithasol.

Mae'r strategaeth yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid inni oll ei wneud er mwyn cyrraedd ein hamcan, sef dod yn genedl ailgylchu mawr erbyn 2025, ac yn genedl dim gwastraff erbyn 2050.

Adroddiad Cynnydd 2015

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ym maes rheoli gwastraff ers cyhoeddi'r strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'. Dyma flas ichi o'r hyn sydd yn yr adroddiad:

- Mae Cymru ar y blaen yn y Deyrnas Unedig o ran ailgylchu gwastraff trefol ac yn 2013/14, llwyddon ni i ailgylchu 54.3% o'n gwastraff trefol. Hefyd, mae ein perfformiad o'i gymharu ag aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn ein rhoi yn y pedwerydd safle.
- Rhwng 2010 a 2013, llwyddwyd i leihau 30% o'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Ers 2009-10, ar gyfartaledd, rydym wedi llwyddo i leihau ein gwastraff cartref 1.8% bob blwyddyn ac mae'r awdurdodau lleol wedi llwyddo i gynyddu 13.8% ar eu cyfraddau ailgylchu hwy hefyd.
- Fe lwyddon ni i gyrraedd targed 2020 yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer gwastraff bioddiraddadwy a gaiff ei gasglu a'i gludo gan awdurdodau lleol ac eraill i safleoedd tirlenwi wyth mlynedd cyn amser.
- Ers 2007, rydym llwyddo i leihau 4.7% ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn gan ragori ar y targed yn ein Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawddi sef gostwng ein hallyriadau 3% bob blwyddyn.